## Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru'n rhoi strategaeth uwch ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu ar yr arfordir ac mae'n ddogfen bolisi anstatudol ar gyfer cynllunio rheoli amddiffyniad arfordirol.

Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn codi pryderon arwyddocaol ynghylch pa mor gynaliadwy yw amddiffyn Fairbourne yn y dyfodol. Mae angen cynnal yr amddiffynfeydd presennol a lleihau perygl llifogydd i'r ardal yn y tymor byr. Bydd newidiadau yn y dyfodol yn lefel y môr, a mwy o law, yn cynyddu'r perygl yn y dyfodol. Ychydig iawn, neu ddim, o gyfle sydd yna i addasu, yn yr ystyr traddodiadol, o ran amddiffyn neu warchod eiddo lleol, a dim cyfle o gwbl o symud y gymuned yn ôl. Mae hynny'n gwneud Fairbourne yn wahanol i lawer o ardaloedd eraill sy'n wynebu perygl cynyddol tebyg o lifogydd ac erydu. Os na fydd yn cael ei amddiffyn, bydd y pentref cyfan yn cael ei golli. Tra bo'r sefyllfa yn Fairbourne ar hyn o bryd yn eithaf anarferol, ni fydd yn unigryw. Mae'n codi llawer o faterion pwysig a chymhleth sy'n mynd y tu hwnt i'r dadansoddiad a'r gwaith sydd cael ei gynnig yn y Cynllun Rheoli Traethlin. Mae'r rhain yn broblemau mae'n rhaid eu hateb, a dyna pam fod Cyngor Gwynedd yn symud hwn ymlaen fel prosiect. Bydd yn golygu y bydd nifer o sefydliadau'n gweithio ar y cyd â'r gymuned ac yn edrych ar beth sydd angen ei wneud, pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen, a sut y dylem gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae yna lawer o gwestiynau, rhai na ellir eu hateb ar hyn o bryd. Mae'n bwysig fod y prosiect, wrth symud ymlaen, yn canfod yr atebion. Yn y cyfamser, mae cwestiynau a ofynnir yn aml wedi'u hateb isod. Maen nhw i'w gweld o dan y penawdau canlynol:




Bydd ateb un cwestiwn mae'n debyg yn codi un arall o du fewn y Gymuned. Efallai y ceir rhai atebion wrth i'r prosiect symud yn ei flaen, ond mae'n hanfodol fod unigolion yn teimlo eu bod yn gallu codi cwestiynau. Fel hyn, bydd pawb yn dod, yn dod i ddeall pethau'n well, a bydd hynny'n arwain at gymryd penderfyniadau gwell.

## Beth sy’n arbennig am Fairbourne?

Adeiladwyd Fairbourne ar dir wedi’i adennill o’r môr. Mae’r pentref yn cael ei amddiffyn rhagddo gan glawdd graean bras sydd wedi datblygu’n naturiol ers diwedd yr oes iâ diwethaf 14,000 o flynyddoedd yn ôl. Ar ochr yr aber mae'r pentref yn cael ei warchod gan amddiffynfeydd a adeiladwyd gan McDougall ym 1868.

Doedd y pentref ddim yn bodoli tan 1891. Dim ond llond dwrn o dai oedd yno ym 1901 ac felly dim ond yn ystod y 100 mlynedd diweddaraf mae Fairbourne wedi datblygu.

- ### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae arwynebedd y pentref, sydd wedi’i amgáu rhwng amddiffyniad y môr, y morglawdd a’r rheilffordd yng nghefn y pentref, yn wastad iawn. Dim ond ychydig uwchben lefel arferol y môr y mae’r pentref. Cyn cael ei adennill a’i amddiffyn, byddai’r tir yma wedi bod o dan ddŵr yn rheolaidd ar lanw uchel.

Petai natur yn cael ei ffordd, byddai’r clawdd graean bras wedi ceisio symud mewn i'r tir, fel y mae wedi gwneud dros filoedd o flynyddoedd. Mae'r graean yn cael ei symud gan y tonnau. Arweiniodd sefydlogi’r clawdd graean bras gyda amddiffynfeydd at leihau ei faint. Mae hynny i’w weld yn benodol yn y pen deheuol, ble mae'r clawdd ar ei isaf.

Cyn bod y pentref yno a chyn bod yr amddiffynfeydd wedi’u hadeiladu, byddai’r nentydd sy’n llifo oddi ar y bryniau wedi llifo ar draws cors agored. Ar lanw uchel, byddai’r dŵr yn cronni ac yn llifo oddi yno pan fyddai’r môr ar drai. Wrth amddiffyn yr ardal, roedd yn rhaid rheoli’r llif a draenio’r tir. Mae’r dŵr sy’n llifo oddi ar y bryniau’n dal i gronni yn y cyrsiau dŵr ar lanw uchel ac yn rhedeg trwy’r llifddorau ar drai.

- ### A yw Fairbourne yn unigryw?

Nac yw. Er bod Fairbourne wedi’i adeiladu ar orlifdir naturiol, nid yw hynny’n unigryw. Mae nifer o ardaloedd ble mae cymunedau mewn perygl llifogydd ar arfordir Gwynedd ac ar arfordir Cymru a’r Deyrnas Unedig.

Mae llawer o ardaloedd yr arfordir mewn perygl o erydu ac mae ardaloedd eraill ble mae'r traeth wedi'i golli oherwydd amddiffyn yr arfordir. Mae nifer o ardaloedd ble ceir erydu a newid.

Beth sy’n gwneud Fairbourne yn wahanol i nifer o ardaloedd eraill yw bod y pentref cyfan wedi’i adeiladu ar dir mor isel. Gan nad oes fawr iawn o dir uchel yno, byddai llifogydd mawr yn effeithio ar y pentref cyfan. Hefyd, er nad yw hynny’n unigryw, gallai nifer o bethau achosi llifogydd: tonnau’n dod drosodd, lefel y môr yn codi, dŵr yn llifo oddi ar y bryniau a dŵr yn codi o’r ddaear.

## Beth yw’r perygl llifogydd?

Oherwydd bod y pentref wedi’i adeiladu ar dir isel, a phe na fyddai’n cael ei amddiffyn, byddai o dan lifogydd. Heb y wal fôr, byddai’r tonnau’n torri dros y clawdd graean bras; heb y clawdd byddai dŵr yn llifo i mewn gan achosi llifogydd o'r aber a byddai dŵr yn cronni yn y cyrsiau dŵr yn gorlifo dros ymylon y sianeli draenio. Ond ym mhob achos, ar hyn o bryd, mae’r perygl yn cael ei reoli.

O dan amodau eithriadol, mae llifogydd yn dal i allu digwydd yn y Fairbourne ond mae'r amddiffynfeydd a rheoli'r cyrsiau dŵr yn atal llifogydd ond o dan yr amodau gwaethaf un.

Yn ystod y stormydd diweddar, daeth ychydig o donnau dros y wal. Fodd bynnag, mae'r amddiffynfeydd wedi'u dylunio i wrthsefyll y math yma o storm. Daliodd yr amddiffynfeydd ac dim ond rhai mannau yn yr ardal oedd o dan ddŵr. Mae glaw trwm yn gallu achosi llifogydd mewn rhai mannau hefyd ond mae prif ran y pentref yn cael ei amddiffyn. Cafodd y clawdd ar ochr yr aber o'r pentref ei atgyfnerthu'n ddiweddar, a bu gwelliannau i'r draeniau trwy'r pentref sy'n golygu fod Fairbourne yn cael ei amddiffyn yn dda.

Roedd y storm ddiweddar yn un ddifrifol, a'r tonnau'n eithriadol o uchel. Yn ffodus, nid oedd lefel y môr mor uchel ag y gallai fod, nac mor uchel ag y bu ar adegau yn y gorffennol.

- ## Pa amodau allai achosi llifogydd mawr?

Cafodd y clawdd newydd sydd wedi'i atgyfnerthu ei ddylunio fel na fyddai'r tonnau yn dod dros y wal, ond o dan amodau y gellir eu disgwyl ar gyfartaledd unwaith mewn can mlynedd. Nid yw hynny'n golygu na fydd tonnau'n dod dros ben y wal am gan mlynedd arall. Gallai hynny ddigwydd eleni ond mae hynny'n annhebyg. Mewn gwirionedd y tebygolrwydd y gallai ddigwydd eleni neu mewn unrhyw flwyddyn unigol yw 1 mewn 100 neu siawns o 1%.

Mae'n anoddach diffinio'r safon hon o amddiffyniad ar gyfer lefelau dŵr yn y cyrsiau dŵr ac ar gyfer tonnau'n dod dros y clawdd graean bras. Mae perygl llifogydd yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau. Yn achos y cyrsiau dŵr, sydd wedi'u gwella erbyn hyn, y ffactorau yw cyfuniad o law mawr a'r tebygolrwydd y bydd hynny'n digwydd pan ar lanw uchel. Yn achos amddiffyniad arfordirol, mae'n dibynnu ar gyfuniad o uchder y tonnau a lefel y môr. Mae hefyd yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r clawdd graean bras yn cael ei erydu yn ystod storm. Ar hyn y bryd, yn y ddau achos, y tebygolrwydd y ceir llifogydd mawr mewn unrhyw flwyddyn a bod yr amodau'n cyfuno yw tua 1 mewn 100 mlynedd.

Bydd hynny'n cael ei adolygu fel rhan o'r Prosiect a phan fydd rhagor o wybodaeth ar gael, o gofio y gallai pethau newid yn y dyfodol.

- ## A ddylen ni gynllunio ar gyfer hwn?

Dylen. Er bod llifogydd mawr yn anarferol, dylid cynllunio ar gyfer digwyddiad o'r fath er mwyn sicrhau fod pobl yn ddiogel. Mae cynllun argyfwng yn cael ei ddatblygu trwy'r Cyngor Cymuned. Bydd hynny'n ffurfio elfen bwysig y bydd y Prosiect yn ei hystyried.

- ## Pwy sy'n gyfrifol am reoli amddiffynfeydd?

Mae gan Gyngor Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd bwerau sy'n eu galluogi i amddiffyn cymunedau rhag llifogydd ac erydu'r arfordir. Cafodd y gwelliannau diweddar i'r clawdd ac i'r cwrs dŵr, eu gwneud gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio i amddiffyn ac i reoli risg.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn monitro'r arfordir.

Pwerau sy’n caniatáu yw’r rhain. Mae hynny’n golygu fod yn rhaid i’r awdurdodau a fydd yn gwneud y gwaith ystyried y cyfiawnhad economaidd drosto a hefyd yn gorfod ystyried pa mor gynaliadwy fyddai rheoli risg yn y dyfodol.

- A yw’r pentref erioed wedi dioddef llifogydd yn y gorffennol?

Er bod yr amddiffynfeydd wedi’u gwella’n barhaus dros y blynyddoedd, bu llifogydd yn y pentref yn y gorffennol megis y rhai fis Tachwedd 1938, er enghraifft.

## Beth yw’r Cynllun Rheoli Traethlin, a beth mae’n dweud?

Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru’n cyflwyno strategaeth uwch ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu ar yr arfordir rhwng St Anne’s Head, wrth yr aber yn Aberdaugleddau a’r Gogarth yn Llandudno.

Mae’r Cynllun yn asesu’r peryglon hyn i bobl ac i’r amgylchedd ddatblygedig, hanesyddol a naturiol. Mae’n ystyried y risgiau uniongyrchol a sut y gellid datblygu rheoli risg yn gynaliadwy yn y dyfodol, er mwyn sicrhau nad yw hyn yn rhwymo cenedlaethau’r dyfodol i ffordd ddrud ac anghynaladwy o reoli. Er bod y Cynllun yn canolbwyntio ar reoli risg ac amddiffynfeydd, mae’n rhaid iddo ystyried y problemau ehangach o reolaeth arfordirol. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ehangach ac mae'n rhaid iddo nodi ac amlygu materion sydd angen derbyn sylw. Yn benodol, ac y mwyaf berthnasol i ardaloedd megis Fairbourne, mae wedi amlygu’r risg gynyddol sy’n codio newid hinsawdd a hefyd yr anawsterau a’r peryglon, a allai godi yn y dyfodol wrthgeisio rheoli’r risg yn y ffordd y maen nhw’n cael eu rheoli ar hyn o bryd. Yn bwysig iawn, wrth amlygu’r risg a allai godi yn y dyfodol, mae’n gyfle i drafod cynllunio ar gyfer y dyfodol.

- Beth yw statws y Cynllun Rheoli Traethlin?

Dogfen bolisi anstatudol yw’r Cynllun ar gyfer cynllunio rheoli amddiffyn yr arfordir. Nid yw’n gosod polisi ar gyfer unrhyw beth, ond rheoli risg llifogydd ac erydu’r arfordir. Fodd bynnag, o’r safbwynt yma, mae’n ceisio rhoi cyd-destun i, a chanlyniad o, benderfyniadau rheoli mewn sectorau eraill o reolaeth arfordirol. Mae’r Cynllun yn rhoi amserlen ar gyfer newidiadau polisi a rheoli; h.y. ‘map llwybr’ ar gyfer y sawl sy’n cymryd penderfyniadau, gan gynnwys unigolion a chymunedau, i symud o’r sefyllfa bresennol tuag at y dyfodol. Mae’r Cynllun Rheoli Traethlin wedi gorfod bod yn realistig, wrth drafod y dulliau rheoli ynghylch beth sy’n debyg o cael ei ariannu beth ellir ei gynnal. Drwy gael ei fabwysiadu gan awdurdodau lleol, mae'r Cynllun yn gosod allan canllawiau ac yn amlygu'r angen i dalu sylw i'r materion sydd wedi'u nodi.

- A yw’r Cynllun Rheoli Traethlin wedi cael ei fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd?

Ydyw. Cafodd ei fabwysiadu gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2013. Rhoddwyd cyflwyniad i Gyngor Cymuned Arthog ar y Cynllun Rheoli Traethlin mabwysiedig ar 1 Mai 2013.

- Sut oedd y Cynllun Rheoli Traethlin wedi cynnwys cymunedau?

Dilynwyd proses ymgynghori y mae ei manylion yn Atodiad B y ddogfen Cynllun Rheoli Traethlin. Y rownd gyntaf o gysylltu â rhan ddeiliaid oedd anfon taflen wybodaeth a holiadur at ran ddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cyngor Tref Abermaw a Chyngor Cymuned Arthog yn Awst / Medi 2009.

Dilynwyd hynny gyda chyfarfodydd o gwmpas yr arfordir gyfan fis Rhagfyr 2009. Roedd hynny'n cynnwys cyfarfod yn y Bermo i drafod problemau.

Ar ôl gorffen y cynllun drafft, bu cyfnod ymgynghori o dri mis, yn dechrau 6 Mai 2011 hyd at 8 Awst 2011.Roedd y cynllun drafft ar gael ar y wefan a threfnwyd cyfarfod yn Neuadd y Pentref, Fairbourne ar 20 Mai 2011. Cofrestrodd 23 o bobl eu presenoldeb. Cafodd y digwyddiad ei hysbysebu hefyd yn y wasg leol. Mae'r holl wybodaeth uchod i'w gweld ar wefan www.westofwalessmp2.org – Atodiadau – Atodiad B Cysylltiad Rhan ddeiliaid.

Ni chafwyd adborth ysgrifenedig oddi wrth drigolion yr ardal, er bod pryderon wedi'u mynegi a'u trafod yn y cyfarfod. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cynllun ac mae'r Cynllun yn pwysleisio'r angen am drafodaeth a chynllunio manwl.

- Mae llawer o'r trigolion yn ystyried nad yw'r broses ymgynghori'n ddigonol. Sut y talwyd sylw i hynny?

Mae'r Cyngor wedi trefnu cyfarfodydd gyda'r holl Gynghorau Cymuned / Cynghorau Tref / Cyngor Dinas o fewn Gwynedd sydd â blaendraeth yn eu hardal. Yn benodol, cytunwyd yn Fairbourne y dylid cael bwrdd aml asiantaeth gyda phartneriaid. Cafodd hynny ei drafod mewn cyfarfod ar 7 Mehefin 2013, gyda bwrdd Prosiect yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 28 Awst 2013. Roedd y Cyngor Cymuned yn bresennol yn y ddau gyfarfod. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn eistedd fel aelodau parhaol ar y Bwrdd Prosiect sy'n ystyried y materion hyn. Y Cyngor Cymuned awgrymodd mai un o'r pethau cyntaf y dylid ei wneud i symud agenda'r Cynllun Rheoli Traethlin 2 yn ei blaen fyddai trefnu cyfarfod, i'w drefnu gan y gymuned, fel bod pawb yn deall y sefyllfa'n glir. Roedd pob aelod o'r Bwrdd Prosiect yn cytuno'n llwyr â hynny. Bu'r Cyngor yn gweithio gyda'r Cyngor Cymuned i drefnu cyfarfod i'r gymuned gyfan, i drafod y materion, ac roedd hynny wedi'i drefnu ar gyfer 2014 (er roedd y stormydd wedi digwydd erbyn hynny). Mae'r Bwrdd Prosiect yn derbyn cyngor oddi wrth y Cyngor Cymuned ynghylch y ffordd orau o drefnu hyn, ac mae cofnodion y cyfarfod ar 28/8/13, yn trafod y ffordd orau o drefnu hynny, er mwyn sicrhau y byddai cymaint o bobl â phosibl yn gallu bod yn bresennol. Mae'r Bwrdd Prosiect yn ystyried ei bod hanfodol fod pobl yn gallu trafod materion mewn ffordd wybodus.

Cafodd dogfen ddrafft o Egwyddorion Prosiect ei pharatoi.

- Beth yw polisïau'r Cynllun Rheoli Traethlin?

Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn gosod un o bedwar polisi gwahanol ar gyfer pobardal: Dim Ymyrraeth Weithredol, Dal y Llinell, Rheoli'r Ail Aliniad a Symud y Llinell. Trafod polisïau cyffredinol mae'r rhain, mae sut y gellid eu defnyddio yn dibynnu ar sefyllfaoedd penodol yr ardaloedd hynny.

- Pam fod polisïau'n newid dros amser a beth mae hynny'n ei olygu?

Mae'r Cynllun yn ystyried sut rydym yn rheoli'r traethlin ar hyn o bryd gan ystyried sut, pe byddai angen, y gellid hynny newid yn y dyfodol. Mae polisïau'n cael eu diffinio dros dri chyfnod; y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir (o heddiw am 20 mlynedd, o 20 i 50 mlynedd ac o 50 – 100 mlynedd).Rhaid gweld hyn fel proses barhaus. Er y gallai'r polisi newid o un cyfnod i un arall, nid yw hynny'n golygu y bydd y ffordd rydym yn rheoli risg yn newid yn sydyn ar 1 Ionawr 2015.Bydd y newid yn dibynnu ar bethau megis newid hinsawdd (e.e. faint o newid sydd i'w weld yn lefel y môr) ac i ba raddau rydym yn barod i newid. Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn chwarae rôl hanfodol wrth

nodi problemau mawr a’r problemau o reoli perygl llifogydd ac erydu'r arfordir mewn llawer o rannau o Gymru ac yn Lloegr hefyd. Bydd yn eithriadol o anodd datrys llawer o’r problemau, yn enwedig mewn ardaloedd megis Fairbourne ble bydd y codiad yn lefel y môr yn rhoi pobl mewn mwy a mwy o berygl. Mae’r Cynllun yn annog ystyried beth fydd y newid yn ei olygu ac yn rhoi amser i baratoi ar ei gyfer.

- Pam fod y polisïau wedi newid o'r rhai oedd yn cael eu diffinio yn y Cynllun Rheoli Traethlin cyntaf?

Ers y Cynllun Rheoli Traethlin cyntaf, cafodd astudiaethau strategaeth manylach eu cynnal ar rannau mawr o'r arfordir ac mae'r rhain, ynghyd â'r ymchwil academaidd a monitro gan yr awdurdodau cyfrifol, wedi gwella'n dealltwriaeth o sut mae’r arfordir yn ymddwyn. Mae’r Cynllun Rheoli Traethlin diwygiedig, sy’n ystyried cyfnod hirach, wedi’n galluogi i ni ystyried materion sy’n datblygu dros amser.

- Sut mae’r Cynllun Rheoli Traethlin yn asesu newid hinsawdd?

Bydd lefel y môr yn codi oherwydd newid hinsawdd. Er bod hynny’n glir, mae maint y newid yn ansicr.Ar frig yr oes iâ diwethaf, roedd lefelau dŵr byd eang tua 120 metr yn is nag heddiw. Yn ystod y cyfnod cynnes diwethaf, amcangyfrifwyd fod lefel y môr tua 2m yn uwch nag ar hyn o bryd. Mae’r Cynllun yn edrych ymlaen dros gyfnod o 100 mlynedd. Dros y cyfnod hwnnw bydd y newid o’r lefelau presennol yn cael effaith fawr ar ein ffordd o ddeall yr arfordir a sut y gallwn reoli’r pethau pwysig sydd mewn gwahanol ardaloedd ar yr arfordir.

Oherwydd yr ansicrwydd hynny, mae’r Cynllun Rheoli Traethlin wedi ystyried tri senario gwahanol. Dros gyfnod y 100 mlynedd nesaf, gellid disgwyl yn rhesymol i lefel y môr godi tua 1 metr. Mae siawns realistig y gallai fod yn uwch neu’n is na hynny. Mae’r Cynllun Rheoli Traethlin felly, wedi ystyried goblygiadau 0.5 a 2m dros y 100 mlynedd nesaf, yn ogystal ag 1m.

Mae pa mor gyflym y bydd lefel y môr yn codi yn effeithio ar ba mor gyflym y bydd yr arfordir yn newid. Mae hefyd yn effeithio ar ba mor gyflym y bydd perygl llifogydd yn cynyddu. Mae’n debyg hefyd y ceir glaw trymach ac efallai fwy o stormydd.

## Beth mae hynny'n ei olygu i Fairbourne?

Mae’r Cynllun Rheoli Traethlin yn dangos y bydd mwy o risg i’r gymuned yn y dyfodol:

- Bydd mwy o berygl uniongyrchol y daw’r tonnau dros y morglawdd oherwydd codiad yn lefel y môr.
- Gallai’r clawdd graean bras erydu rhagor. Hyd yn oed heb godiad yn lefel y môr bydd yna erydu, a bydd hynny’n cynyddu wrth i’r môr godi. Bydd mwy o berygl y gallai’r amddiffyniad fethu, ac o fwy o donnau’n dod drosodd.
- Bydd cynnydd yn y glaw yn golygu mwy o lif yn y cyrsiau dŵr, ynghyd â’r perygl na fydd y dŵr yn draenio mor gyflym oherwydd codiad yn lefel y môr a fyddai’n cynyddu’r perygl o lifogydd.
- Gyda lefel y môr yn codi, mae yna bosibilrwydd y bydd lefel y dŵr daear yn uwch. Mewn gwirionedd, ymhen tipyn, gallai’r ardal gyfan fod yn is na lefel arferol y llanw.

- A yw’n bosibl rheoli’r risg yma?

Mae’n bosibl gwella’r amddiffynfeydd. Gellid codi’r morglawdd; gellid cario graean bras i mewn i amddiffyn y traethlin a gellid gosod pympiau i ymdrin â’r cynnydd yn y glaw a dŵr ddaear. Mae’n bosibl cynnal safon yr amddiffynfeydd.

- Byddai hynny’n eithriadol o ddrud, a chynnydd parhaus yn y costau.
- Yr un mor bwysig, petai’r amddiffynfeydd yn methu unrhyw bryd yn y dyfodol, byddai’r canlyniadau’n waeth. Petai’r amddiffynfeydd yn methu’n llwyr, gallai’r llifogydd dros yr ardal gyfan fod yn fwy na 2 metr o ddyfnder. Gyda newid hinsawdd, hyd yn oed pe byddai’r amddiffynfeydd yn cael eu gwella, byddai’r canlyniadau a’r perygl i fywydau’n ddifrifol.

Hyd yn oed wrth ymdrechu i amddiffyn pobl, mae’r risg gymaint, pe byddai’r tonnau’n dod dros yr amddiffynfeydd, neu'n waeth byth yn torri trwodd, fel y byddai'r canlyniadau'n drychinebus a byddai bywydau pobl mewn perygl.

- Beth yw polisi'r Cynllun Rheoli Traethlin?

Mae’r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau dros amser. Ar hyn o bryd ac yn y tymor byr bydd yr amddiffynfeydd yn cael eu cynnal. Mae’r Cynllun Rheoli Traethlin yn gwneud argymhellion clir y dylai’r pentref gael ei warchod yn ystod y cyfnod cyntaf.  Yn y tymor canolig, dros yr 50 mlynedd nesaf, mae’n rhaid cael cynlluniau a'u gweithredu i roi’r gorau i’r amddiffynfeydd a rhoi cyfle i bobl symud allan. Yn y tymor hir ni fydd yr amddiffynfeydd yn cael eu cynnal.

- Mae galw am adfer y polisi Dal y Llinell ar frys. A yw hynny’n rhesymol?

Nac ydyw. Mae’r Cynllun Rheoli Traethlin diwygiedig, sy’n seiliedig ar y dystiolaeth, yn dangos yn glir, ar hyn o bryd a thros y 40 mlynedd nesaf, yr hyn y gallwn ni ei amddiffyn a’r hyn y dylen ni ei amddiffyn. Bydd hyn yn cael ei adolygu wrth gael rhagor o wybodaeth am godiad yn lefel y môr (gweler isod).Felly, nid yw’r polisi a’r dull presennol yn llawer gwahanol i’r polisi a oedd i’w weld yn 2000 yn y Cynllun Rheoli Traethlin 1.  Y gwahaniaeth mawr yw fod y Cynllun presennol yn edrych ymhellach i’r dyfodol. Mae hynny’n rhoi cyfle i gynllunio ar gyfer y dyfodol hwnnw. Rhaid manteisio ar y cyfle ar hyn o bryd os ydym ni i ymdrin â’r problemau mawr a fydd yn codi yn y dyfodol.

## Beth fydd yn newid a phryd?

Rhaid ail bwysleisio fod y Cynllun Rheoli Traethlin yn argymell , ar hyn o bryd, y gallwn ni amddiffyn ac y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru amddiffyn. Ond ni ddylai’r gymuned eistedd ar ei dwylo. Mae pob asiantaeth, a’r gymuned hefyd, yn gorfod cynllunio ar gyfer y dyfodol ac mae’n rhaid i ni gynnwys y rhai sy’n cael eu heffeithio fwyaf yn y broses hon. Dyma beth y mae’r Cynllun yn ei hyrwyddo, gan gydnabod fod y problemau'n llawer gwaeth na phroblemau arferol rheoli perygl llifogydd. Trwy’r pryderon a godwyd yn y Cynllun Rheoli Traethlin daeth y Cyngor yn gwbl ymwybodol o’r problemau, ac mae wedi ysgogi’r Cyngor i drafod y problemau anodd hyn gyda’r cymunedau.

- Mae sôn na fydd neb yn byw yn y Pentref erbyn 2025.  A yw hynny’n wir?

Nac ydyw.Er bod y sylw yn y cyfryngau’n ddiweddar oherwydd y stormydd wedi bod o fudd wrth godi proffil y penderfyniadau y mae’n rhaid eu cymryd, mae’r holl bartneriaid yn ymwybodol iawn fod hynny hefyd wedi cynyddu’r pryderon a bod rhai adroddiadau wedi creu dryswch ynghylch beth sydd angen sylw ar frys. Mae’n wir fod y Cynllun Rheoli Traethlin yn dweud na fydd yn gynaliadwy i

amddiffyn y Fairbourne rhag llifogydd yn y dyfodol. Yr amcangyfrif gorau ar hyn o bryd yw y bydd y pwynt yna'n cael ei gyrraedd ymhen 40 i 50 o flynyddoedd (2052 – 2062). Ystyrir fod digon o ansicrwydd i ledu'r cyfnod i rhwng 2042 a 2072.

- Sut y cyrhaeddwyd at y dyddiadau hynny?

Yn seiliedig ar yr wybodaeth bresennol, mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn amcangyfrif, pe byddai'r môr yn codi 0.5m, y byddai'n rhaid cael newid mawr yn y modd mae'r amddiffynfeydd yn cael eu rheoli. Un o'r tasgau a nodwyd ar gyfer y Prosiect oedd archwilio i hynny'n fanylach. Mewn gwirionedd y cwestiwn yw nid a fydd angen hynny ond pa bryd.

- Pryd fydd y codiad yn lefel y môr o 0.5m yn digwydd?

Fel y trafodwyd yn gynharach, mae ansicrwydd ynghylch pa mor gyflym y bydd lefel y môr yn codi. Mae lefel y môr mewn perthynas â lefelau'r tir wedi codi dros y ganrif diwethaf. Mae yna tystiolaeth dda fod lefel y môr yn codi ynghynt erbyn hyn. Ar y mwyaf pesimistaidd, ond dal yn realistig, amcangyfrifir y gallai lefel y môr godi o 2m dros y 100 mlynedd nesaf. Byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddo fod wedi codi 0.5m erbyn 2042. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos yn debyg y bydd yn codi 0.5m dros y 40 i 50 o flynyddoedd nesaf. Ond mae'n bosib na fydd hynny'n digwydd tan 2072.

Ymhen amser, daw'r amcangyfrifon yn fwy dibynadwy. Mae'r Prosiect yn bwriadu monitro hynny er mwyn cael amserlen sicrach o ba bryd y gellir disgwyl y newid. Nod y Bwrdd Prosiect yw canfod beth fydd yn rhaid ei wneud o heddiw ymlaen fel, pan ddaw rhagor o wybodaeth i law, fod yr hyn y bydd yn rhaid ei wneud yn glir a bod cynlluniau ar gael ar gyfer hynny.

## Beth fydd hynny'n ei olygu i mi a beth sydd angen i ni ei wneud?

Yn amlwg, mae stormydd misoedd cynnar 2014 wedi achosi pryder ac mae hynny, gyda'r sylw yn y cyfryngau, y problemau tymor hir parhaus sy'n cael eu hamlygu yn y Cynllun Rheoli Traethlin ac sy'n cael eu trafod trwy'r Prosiect, oll wedi codi proffil y sefyllfa yn Fairbourne.

Gobeithir y bydd y cwestiynau ac atebion uchod o gymorth, i egluro rhai o'r problemau hynny. Fodd bynnag, mae cwestiynau eraill wedi codi sy'n fwy penodol i'r gymuned ac i unigolion yn y gymuned.

**Y sefyllfa bresennol.**

- Roedd difrod a'r tonnau'n torri drosodd ar yr arfordir. Sut mae hyn yn cael ei drin?

Y bwriad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol agos yw dal i amddiffyn y pentref. Mae'r difrod, y tonnau'n dod dros y morglawdd a cholli darnau o'r traeth yn cael eu hystyried gan y Cyngor a'i bartneriaid Cyfoeth Naturiol Cymru i weld beth sydd angen ei wneud. Roedd y tonnau'n eithriadol o uchel yn ystod storm 2014 a gellid disgwyl rhywfaint o ddifrod. Bydd gwaith yn cael ei wneud i gynnal yr amddiffynfeydd ar y cyd â datblygu'r Prosiect. Bydd y Prosiect yn ystyried y problemau tymor hirach a hefyd beth sydd ei angen yn y tymor byr.

- A yw'r sefyllfa'n cael ei monitro?

Ydyw. Mae'r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi monitro'r traeth a'r amddiffynfeydd ers blynyddoedd. Roedd yr wybodaeth yn hynod ddefnyddiol wrth ddatblygu'r Cynllun Rheoli Traethlin.

Drwy'r gwaith monitro y gwelwyd bod angen gwella'r morglawdd a'r cwrs dŵr. Mae'r gwaith hefyd yn hanfodol i allu deall y newidiadau a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Y bwriad, trwy'r Prosiect, yw monitro agweddau eraill hefyd, megis lefelau'r dŵr daear. Bydd hyn i gyd yn cael ei ddefnyddio yn y Prosiect a bydd yr wybodaeth ar gael yn agored i'r gymuned er mwyn i unigolion allu deall y newidiadau sy'n digwydd. Rhan o'r prosiect fydd archwilio beth arall ddylid ei ystyried er mwyn sicrhau fod penderfyniadau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar wybodaeth ac yn adeiladu ar yr wybodaeth sy'n bodoli eisoes.

- Sut fydd cynllunio brys yn datblygu?

Fel y trafodwyd yn gynharach, mae'r Cyngor Cymuned yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddatblygu cynllun argyfwng ar gyfer unrhyw stormydd eithriadol a fydd yn cael eu rhagweld. Bydd hynny'n cael ei gydlynu gyda rhybuddion llifogydd, fel ar hyn o bryd. Bydd y cynllun yn cael ei drafod gyda'r gymuned, a bydd y gymuned yn cael ei chynnwys ac yn cael gwybodaeth yn rheolaidd.

**Edrych i'r tymor hir ac i'r cwestiynau sy'n codi o hynny ar hyn o bryd.**

- A yw'r pentref wedi dioddef malltod sydyn oherwydd y newid rhwng polisïau Cynllun Rheoli Traethlin 1 a Chynllun Rheoli Traethlin 2?

Dyma'r pryder mewn nifer o ardaloedd yr arfordir ble mae polisïau'r tymor hirach wedi newid. Mae'r dystiolaeth dal yn aneglur o'r ardaloedd hynny. Dyma un agwedd mae'r Prosiect yn edrych arno. Mae'r Bwrdd Prosiect yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ganfod sut mae prisiau tai'n cael eu heffeithio gan y newid mewn polisi. Bydd goblygiadau hynny'n cael eu cynnwys yn y Prosiect ac mewn polisïau cenedlaethol.

- A fydd hi'n anoddach i gael yswiriant?

Mae Llywodraeth Cymru'n trafod hynny gyda'r diwydiant yswiriant. Mae problemau Fairbourne yn ffurfio rhan o hynny. Bydd yn bwysig cofnodi unrhyw achos ble nad oedd yn bosibl cael yswiriant a bydd y Cyngor Cymuned yn casglu'r dystiolaeth hon. Bydd hyn hefyd yn cael ei drafod trwy'r Prosiect.

- Os yw newid yn anorfod, mae'n rhaid i bobl a busnesau cael gwybod er mwyn gallu cynllunio. Pam na chafodd pobl wybod yn gynharach?

Mae hwn yn gwestiwn anodd. Dim ond wrth wneud y Cynllun Rheoli Traethlin y daeth rhai o'r problemau sy'n cael eu trafod i'r amlwg. Dechrau'r broses hon y mae'r prosiect. Dyma pam, er gwaethaf yr ansicrwydd presennol o ran pethau fel newid hinsawdd, penderfynwyd cynnwys y Gymuned ar yr adeg yma. Derbynnir fod yr ansicrwydd ynghylch pa bryd y gallai gwahanol bethau ddigwydd yn gallu bod yn bryder ynddo'i hunan. Er hynny, mae'n rhaid trafod y problemau ar hyn o bryd a'u trafod yn agored. Dyma sut y mae unigolion a busnesau'n gallu bod yn rhan o'r broses ac yn gallu dechrau cynllunio ar gyfer eu dyfodol.

- Pwy fydd yn penderfynu pryd a sut y bydd y gymuned yn cael ei hadleoli?

Mae hyn yn fater sylfaenol y bydd y Prosiect yn edrych arno. Bydd pob partner ar y Bwrdd Prosiect yn cael eu cynnwys, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Gymuned.

- Yn y cyfamser, beth fydd yn digwydd i'r Gymuned?

Unwaith eto, dyma pam y cafodd y Prosiect ei sefydlu. Gan dderbyn fod angen newid, egwyddorion sylfaenol y prosiect yw sicrhau fod y gymuned yn aros yn hyfyw, yn lle diogel i fyw, fod busnesau'n dal i ffynnu, a bod y seilwaith a gwasanaethau sylfaenol yn cael eu cynnal. Bydd y Prosiect yn edrych ar bob un o'r agweddau hynny.

- A fydd perchnogion eiddo'n cael iawndal am golli'u heiddo?

Ar hyn o bryd, does dim darpariaeth ar gyfer hynny. Mae'n debyg y byddai cefnogaeth y Cyngor ar gyfer 'adleoli' yn cael ei gyfyngu i roi cymorth i ganfod eiddo i'w rentu yn y sector preifat a chymorth i ymgeisio am fudd-dal tai. Mae trafodaeth genedlaethol ynghylch hyn. Bydd y Prosiect yn ystyried ac yn ymchwilio i hyn yn llawn a bydd yn codi'r mater gyda Llywodraeth Cymru. Mewn ardaloedd eraill o'r wlad, yn enwedig ar arfordir dwyreiniol Lloegr, mae'r syniad o brynu a phrydlesu'n ôl wedi cael sylw. Bydd hynny, ynghyd â syniadau eraill, yn cael eu hystyried trwy'r Prosiect.

- Sut y bydd pobl yn gwybod beth sy'n digwydd?

Bydd gan y Cyngor Cymuned yn rhan hanfodol o'r Bwrdd Prosiect. Yn ogystal, trefnir cyfarfodydd i drafod materion ac i fynegi pryderon ac i ystyried syniadau eraill ar sut i gyfathrebu.

## Beth sy'n cael ei wneud?

- Mae'r camau cyntaf eisoes wedi'u cymryd wrth sefydlu'r Bwrdd Prosiect.
- Mae trefniadau'n cael eu gwneud trwy'r Cyngor Cymuned i gynnull cyfarfod o'r Bwrdd Prosiect er mwyn ateb cwestiynau gan y gymuned.

Dyma'r camau cyntaf.

- Beth fydd y Prosiect yn ei gynnwys?

Mewn egwyddor, bydd gan y prosiect dwy brif elfen:

  - Archwilio a chasglu gwybodaeth bellach ar reoli'r risg, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, o lifogydd ac erydu arfordirol. Bydd hynny'n cynnwys monitro, cynnal adolygiad o'r risgiau cyfun o wahanol ffynonellau, sicrhau gwasanaeth rhybudd llifogydd priodol ac ystyried ble mae'n bosibl gwella'r amddiffynfeydd presennol.
  - Addasu a rheoli'r risg cymdeithasol. Bydd hynny'n ystyried y cynlluniau argyfwng presennol, y trefniadau cyfathrebu, problemau cymdeithasol megis tai a busnesau ynghyd â beth sydd fwyaf tebygol o ddioddef o newidiadau yn y tymor hir. Yn ogystal, bydd yn ystyried y sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â materion megis iawndal ac amddiffyniad. Bydd yn ystyried hefyd beth allai fod ei angen i ganiatáu i'r newid ddigwydd ac ystyried beth allai digwydd ar ôl i bobl cael eu hadleoli.

- Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?

Bydd y Prosiect yn dal i redeg nes bod y newidiadau wedi'u gwneud, gan ystyried gwybodaeth newydd ar bethau megis rhagolygon newid hinsawdd a gan sicrhau y bydd yr asiantaethau a'r gymuned yn cyfathrebu'n barhaus. Gallai prif gyfnod y Prosiect redeg dros y pum mlynedd nesaf. Bydd rhai problemau'n yn cael eu hateb gynted â phosibl, ond ni fydd yn bosibl datrys materion eraill nes y bydd gwybodaeth o waith monitro a data arall yn cael eu casglu. Nod y cyfnod cychwynnol hwn yw datblygu Cynllun Rheoli Fairbourne yn fanwl.

## Pwy i gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth?

Alun Jones
YGC, Uned Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu'r Arfordir
Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
Ffôn: 01758 704 016
E-bost:SMP2@gwynedd.gov.uk